



Arwyr – CA5

Tasg 1: Cymharu cerddi

Wrth fodio drwy gyfrolau Gwyn Thomas, daw hi'n amlwg ei fod wrth ei fodd yn cyfansoddi cerddi i bobl y mae e'n eu cyfrif yn arwyr. At hyn, mae ganddo sawl cerdd sydd â'u teitlau'n benodol yn cyfeirio at y thema mewn rhyw fodd.

Dyma enwi pedair ohonyn nhw:

Arwrol

Thomas, G. (1990) *Gwelaf Afon*, Gwasg Gee: Dinbych tt. 42-43

Arwr: Ugeinfed Ganrif

Thomas, G. (trydydd argraffiad 1994) *Y Pethau Diwethaf a Phethau Eraill*, Gwasg Gee: Dinbych t. 35

Dydi Arwyr Ddim yn Marw

Thomas, G. *Croesi Traeth*, Gwasg Gee: Dinbych tt. 42-43

Cai – arwr, gofalus

Thomas, G. (2005) *Apocalups Yfory*, Barddas: Llandybie (t. 92)



Yn y gweithgaredd hwn, byddwn ni'n craffu ar y ddwy olaf. Mae'r ddwy'n cyfeirio at aelodau o deulu Gwyn Thomas, ei fab yn y gyntaf, a'i wŷr yn yr ail.

Drwy edrych ar ddwy gerdd ochr yn ochr â'i gilydd weithiau gallwn ni eu deall yn well, mae'n ymarfer sy'n mynnu ein bod ni'n craffu ar bob math o agweddau, pethau fel:

Sain	Strwythur	Delweddau
cyflythrennu	siâp a hyd llinellau	cyffelybiaeth
odl	patrymau penillion	cymhariaeth
rhythm	mesur	trosiad
cynghanedd	atalnodi	personoli

Er mwyn mynegi eich sylwadau, mae angen gallu mynd yn ystwyth o'r naill gerdd i'r llall.

Yn y tablau sy'n dilyn, ceir awgrymiadau am ffyrdd o ddechrau brawddegau sy'n cymharu 'Cerdd A' a 'Cerdd B'.

TEBYG	ANNHEBYG
<ul style="list-style-type: none">• Yn yr un modd• Yr hyn sy'n gyffredin rhwng y ddwy gerdd yw• Tebyg yw agwedd beirdd y ddwy gerdd tuag at ...• Digon tebyg yw'r ymdriniaeth o fyd natur yn y ddwy gerdd• Mae modd dadlau mai'r un yw bwriad y ddwy gerdd ...	<ul style="list-style-type: none">• Yn wahanol i gerdd X, mae cerdd Y yn• Nid yw cerdd X yn ymateb yn yr un modd ...• Agwedd arall a welir yng ngerdd X.• Gwelir gwahaniaeth syfrdanol rhwng cerdd X a Y o ran ...



Cymharu Cerdd A a Cherdd B	
Bwriad cerdd A yw ...,	nod cerdd B yw ...
Pwysleisio a wna cerdd A,	hoelio ein sylw ar ... a wna cerdd B.
Er bod cerdd A yn creu awyrgylch ...,	mae cerdd B yn
Mynnu ... a wna cerdd A ...	ond awgryma cerdd B...
Mae cerdd A yn llawn ...,	nid oes arlliw o ... yng ngherdd B, fodd bynnag.
Cynrychiola A ...,	tra mae B yn cynrychioli ...
Tuedd cerdd A yw creu awyrgylch.	Mae cerdd B fodd bynnag yn llawn ...
Os yw cerdd A yn ... ei naws,	mae cerdd B yn creu awyrgylch
Portread ... a geir yng ngherdd A.	cawn ddarlun o yng ngherdd B.
Ar y naill law, mae cerdd A yn ...,	ar y llaw arall mae cerdd B yn ...
Dengys cerdd A fel B yr un agwedd tuag at ...	
Ceir dau bortread gwahanol iawn o ... yng ngherdd A a B.	



TASG

- Darllenwch y ddwy gerdd isod yn ofalus. Mae’r ddwy’n ymwneud ag ‘Arwr’.
- Gwnewch sylwadau am Sain/Strwythur/Delwedd a Themâu
- Yna, gan ddefnyddio’r ymadroddion uchod, cymharwch y ddwy gerdd a thrafodwch eich syniadau â’ch partner.

<p>Dydi Arwyr Ddim yn Marw</p> <p>Thomas, G. <i>Croesi Traeth</i>, Gwasg Gee: Dinbych 42-43</p> <p>ELVIS DEAD</p> <p>MORT MUERTE MARW</p> <p>Mae’n anodd meddwl am Elvis marw. Efô yr oedd bywyd yn gwingo trwyddo A’i ganu trwy’r byd yn gyffro. Gŵr y gitâr, y gloywder a’r goleuadau, Hwnnw, yn farw.</p> <p>Elvis oer, tew, marw. Un a oedd, medden nhw, Yn gibau o jync.</p> <p>* * * *</p>	<p>Y mae’r pwnc yn codi eto, yn nhŷ cyfaill</p> <p>Sy’n prynu papur mwy syber</p> <p>Na’r un gawsom ni.</p> <p>Gwelwn yno nad oes fawr o sôn am Elvis a chyffuriau, Fawr o sôn am ei strach. Cyfeirir yn fyr at ryw salwch.</p> <p>Ar y ffordd yn ôl y mae fy mab yn gofyn, ‘Am ei fod o’n sâl, ynte, Yr oedd Elvis yn byta drygs ac yn llyncu tabledi, Pethau oedden nhw at ei gadw fo’n fyw?’</p> <p>Ymhen deuddydd wedyn Dyma fo’n gofyn am ffilmiau, ‘Fyddan nhw’n peidio â dangos lluniau Elvis Rŵan a ‘fynta ’di marw?’ ‘Does dim rheswm dros beidio.</p>	<p>NODIADAU</p>
---	---	------------------------



<p>Yr ydym ar ein gwyliau yn yr Alban Ac y mae fy mab, sy'n naw, Yn darllen, yn Saesneg, Mewn papur newydd tra phoblogaidd yn y wlad honno Gyfres o adroddiadau sy'n canolbwyntio braidd Ar Elvis y twchu a'r tabledi A'r hwrio ar fideo. Y mae fy mab yn deall digon I weld arwr yn dadfeilio: 'Dydi o ddim wedi ei blesio.</p>	<p>'Wnan nhw ddim peidio.' 'Os byddan nhw felly, yn dal i'w dangos nhw Ymhen tipyn, 'fydd yna neb yn cofio, Yn na fydd, fod Elvis wedi marw.' Dim o'r tew a'r tabledi, diolch, Dim o drai heneiddio Ond y peth byw, Y gŵr ifanc â'r gitâr, y gloyw hwnnw Yn siglo yn y goleuadau Elvis nad ydi o ddim yn marw. 'Dydi arwyr ddim yn marw, Ddim pan ydych chi'n naw oed.</p>	
<p>Cai - arwr, gofalus Ac yntau ychydig dros ei un A heb fod yn sâd iawn ar ei draed, Sut y mae rhywun fel hyn Yn mynd, meddech chwi, i ymosod ar gath – Hyd yn oed un hynod hynafol A diffygiol ei chyneddfau?</p>	<p>NODIADAU</p>	



Wel, buddiol ydyw, i ddechrau, ymarfogi â brws,

Un ysgafn plastig, ond digon hirgoes

I chwi fod yn ymosodol ag o – o bell.

Yna ewch i nôl eich Nain

A chydiwch yn un o’i bysedd yn dynn

A chyfeiriwch ei chamre tuag at y gath.

A phan ydych chi yna o fewn cyrraedd i Pws

Rhowch iddi hi bwriad â blaen eich brws.

Ond os ydi honno yn dangos unrhyw osgo

At godi a dynesu atoch chi

Rhowch eich brws yn ei ôl mewn rhyw wain –

Fel y gwna pob marchog cyfrifol-

Ac enciliwch, da chi, pronto,

I fangre diogel y tu ôl i’ch Nain.

Thomas, G. (2005) *Apocalups Yfory*, Barddas: Llandybïe (tud 92)